



Nodyn Cyngor Cynllunio 2 Polisi Gorfodi

Cyflwyniad

Mae hyder y cyhoedd yn y system gynllunio yn dibynnu ar wasanaeth gorfodi effeithiol.

Mae'r gwaith yn ymdrin â datblygiad anawdurdodedig. Diffinnir hyn at ddibenion y polisi hwn fel datblygiad a gyflawnir heb y caniatâd neu'r datblygiad angenrheidiol a gyflawnir yn groes i amod neu gyfyngiad sydd ynghlwm wrth gydsyniad. Bydd y broses yn ceisio ...

1. Unioni effeithiau annymunol datblygiad anawdurdodedig
2. Dod â datblygiad anawdurdodedig o dan reolaeth y system gynllunio er mwyn peidio â thanseilio hygrededd y broses.

Bydd ymateb y Cyngor bob amser yn gymesur â rhinweddau pob achos. Bydd y Cyngor yn dewis defnyddio ei bwerau disgresiynol i gychwyn achos gorfodi os bernir bod toriad yn ddigon dirifol a bod camau gweithredu er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, gall y Cyngor ddewis tanorfodi pan fydd y toriad yn fach.

Diben unrhyw weithredu yw unioni effeithiau'r datblygiad anawdurdodedig, nid cosbi'r person(au) sy'n cyflawni'r gweithrediad neu'r defnydd. Ni ellir cymryd camau gorfodi yn syml i reoleiddio datblygiad na cheisiwyd caniatâd ar ei gyfer ond sydd fel arall yn dderbyniol.

Os, ar ôl ymchwilio, y byddai'n fwy priodol i'r achos gael ei drin gan gorff arall fel Cyfoeth Naturiol Cymru bydd y mater yn cael ei gyfeirio ymlaen a bydd yr achos yn cau.

Bydd cwynion am dir sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu trosglwyddo i'r tîm Ystadau.

Bydd cwynion am goed gwarchoddedig yn cael eu trosglwyddo i'r tîm Seilwaith Gwyrdd.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio ag ymchwilio i gwynion ailadroddus neu faleisus.

Nid yw'r Cyngor yn darparu gwasanaeth gorfodi rhagweithiol oherwydd cyfyngiadau capasiti. Byddwn ond yn ymateb i gwynion am achosion honedig o doriadau cynllunio.

Gall proses gorfodi cynllunio fod yn broses hir a chymhleth. Er bod y Cyngor wedi ymrwymo i ddatrys toriadau, mewn sawl achos, gall hyn gymryd peth amser yn dibynnu ar natur y toriad a'r pwerau sydd ar gael i'r Cyngor.

Nid oes gennym yr adnoddau i ddiweddarau achwynwyr ar gynnydd achos.

Ni fydd trais, bygythiadau a cham-drin geiriol yn cael eu goddef. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i roi'r gorau i drafod gydag unrhyw barti sy'n torri'r egwyddor hon.

Sut i Roi Gwybod am Doriad

Dylid e-bostio cwynion am achosion honedig o doriadau cynllunio at:

- planning@blaenau-gwent.gov.uk neu rhowch wybod amdano eich hun drwy <https://developmentservices.blaenau-gwent.gov.uk/planning/index.html?fa=submitEnforcement&language=c>

Mae'n rhaid i chi ddarparu'r union leoliad ac os ydych chi'n gwybod, hunaniaeth perchennog y tir/eiddo neu pwy sy'n gyfrifol am y tramgwydd honedig. Efallai y bydd angen ffotograffau neu dystiolaeth arall o doriad honedig hefyd.

Gofynnir i chi adael eich manylion cyswllt rhag ofn y byddwn angen mwy o wybodaeth gennych unwaith y bydd yr ymchwiliad yn dechrau. Ni fyddwn yn ymchwilio i gwynion dienw ac eithrio mewn achosion eithriadol.

Beth Fydd yn Digwydd Nesaf

Byddwn yn cynnal ymweliad safle ar gyfer pob cwyn a gofrestrir a bydd swyddog yn ymchwilio i hanes cynllunio safle.

Bydd hyn yn pennu a oes caniatâd yn bodoli ar gyfer unrhyw waith neu a yw'r gwaith wedi'i ddiogelu yn rhinwedd ei oedran.

Os byddwn yn darganfod nad oes unrhyw achos o doriad cynllunio, bydd yr achos yn cael ei gau.

Os darganfyddir toriad, bydd y perchennog fel arfer yn cael yr opsiynau canlynol.

1. Dileu'r toriad e.e. tynnu wal/sied neu adeilad arall i lawr
2. Addasu'r gwaith fel na fydd angen caniatâd cynllunio arnynt mwyach.
3. Gwneud cais cynllunio i gadw'r defnydd/gwaith anawdurdodedig. Ni fydd unrhyw gamau gorfodi yn cael eu cymryd hyd nes y penderfynir ar y cais cynllunio.

Os na fydd y perchennog yn cymryd yr un o'r opsiynau hyn neu os gwrthodir cais cynllunio i gadw'r gwaith, bydd y Cyngor yn ystyried a yw'n briodol cymryd camau gorfodi.

Diwylliant y gwasanaeth bob amser yw trafod mewn modd adeiladol i sicrhau canlyniad boddhaol.

Mewn achosion lle nad yw'r rhai sy'n gyfrifol am dorri rheolau yn delio'n adeiladol â materion, bydd y Cyngor yn troi at gamau gorfodi yn gynharach nag y byddai'n digwydd fel arall.

Pan benderfynir cymryd camau gorfodi, bydd yr hysbysiad priodol yn cael ei gyflwyno i bawb sydd â buddiant cyfreithiol

yn y tir neu'r eiddo. Bydd y rhain hefyd yn cael eu cofrestru fel pridiant tir.

Efallai y bydd swyddogion yn penderfynu nad oes unrhyw gamau pellach yn briodol. Yn y sefyllfa hon, hysbysir y perchennog a/neu'r datblygwr y bydd chwiliadau tir lleol yn y dyfodol yn datgelu bod datblygiad anawdurdodedig wedi digwydd.

Efallai y bydd angen cydweithrediad gan achwynwyr i symud ymchwiliad yn ei flaen, fel monitro safle am weithgarwch. Bydd llwyddiant yr ymchwiliad yn dibynnu ar y cydweithrediad hwn. Lle mae angen monitro safle ac nid yw achwynwyr yn dychwelyd taflenni monitro o fewn 4 wythnos (neu ddyddiad cau arall y cytunwyd arno) bydd yr achos yn cael ei gau.

Amserlenni

Bydd hyn yn amrywio o achos i achos yn dibynnu ar natur y toriad.

Ein nod yw ymweld â phob safle sy'n destun cwyn o fewn 21 diwrnod i'w derbyn. Ar adegau o lwyth gwaith trwm neu absenoldeb staff, gall hyn gymryd mwy o amser.

Pan fo angen trafod, rhoddir amser rhesymol i'r partïon sy'n gyfrifol ystyried opsiynau a chymryd camau priodol. Bydd y terfynau amser hyn yn cael eu hymestyn dim ond os oes rhesymau rhesymol a chyfiawnadwy yn cael eu darparu.

Ar gyfer 2025, byddwn yn anelu at...

Ymchwilio i 75% o achosion o fewn 84 diwrnod o'u derbyn.

Cymryd camau cadarnhaol lle y bo'n briodol o fewn 90 diwrnod o'u derbyn.

Cwynion am y gwasanaeth

Dylid anfon pob cwyn at planning@blaenau-gwent.gov.uk